**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

9 Mehefin 2022

Annwyl Vaughan,

Ar 30 Mawrth, fe ofynnodd Rhun ap Iorwerth gwestiwn ynghylch rhoi Orthios yn nwylo'r gweinyddwyr. Yn eich ymateb, fe ddywedoch chi wrth y Cyfarfod Llawn fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r cyngor a'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud yn siŵr bod pob carreg yn cael ei throi wrth edrych ar " y gwahanol fathau o gymorth y gall y ddwy Lywodraeth genedlaethol ei ddarparu, gyda'r cyngor, i gynorthwyo gweithwyr i chwilio am gyflogaeth amgen gynaliadwy." At hynny, fe ddywedoch y byddech chi'n cyfarfod â Rhun i "drafod nid yn unig y sefyllfa bresennol, ond y tymor hwy ar gyfer y safle hwn".

Fel y dywedwch, mae hen safle Alwminiwm Môn yn safle allweddol i Gymru o ran cyflogaeth. A fyddech chi cystal â darparu'r canlynol i'r Pwyllgor?

- Diweddariad ar y gwaith ar y cyd rhwng y Llywodraeth a'r cyngor i gefnogi gweithwyr yr effeithir arnynt;
- diweddariad ar unrhyw waith a wnaed ynghylch dyfodol y safle; ac
- unrhyw beth pellach y teimlwch sy'n berthnasol yn sgil eich trafodaeth â Llywodraeth y DU, y Cyngor neu'ch trafodaethau â Rhun.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Rhun er gwybodaeth iddo.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.